Atodiad 1

# Adolygiad o Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd CBS Caerffili 2017-22

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.**
**This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.**

Mawrth 2022

www.nico.cymru
post@nico.cymru

**"Mae gan strategaethau 5 mlynedd botensial enfawr i wneud awdurdodau lleol yn asiantaethau hybu'r Gymraeg o fewn eu hardaloedd, gan gydlynu a gyrru ymdrechion mewn meysydd mor amrywiol ag addysg, economi, cynllunio, ieuenctid, twristiaeth, gofal ac ati. Mae'r strategaethau wedi arwain at sylw mwy strategol i'r Gymraeg gan nifer o sefydliadau, ond nid yw'n glir faint o weithgareddau newydd sydd wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad uniongyrchol i'r strategaethau, ac ymddengys nad oes cyllidebau ac adnoddau newydd sylweddol wedi'u neilltuo i'w gweithredu yn y rhan fwyaf o achosion.**

**Mae cyfle ar y gorwel i newid hyn, gyda gofyniad y sefydliadau i adolygu a llunio strategaethau newydd yn 2022. Nawr yw'r amser i ddechrau cynllunio a mesur effaith er mwyn sicrhau bod y strategaethau'n cael effaith wirioneddol ar sefyllfa'r Gymraeg yn gymunedol yn ystod y ddegawd hon."**

**Comisiynydd y Gymraeg, Cau'r Bwlch, Adroddiad Sicrwydd 2019-20**

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Nia Davies o Nico ac fe'i comisiynwyd gan y Cyngor i asesu'r modd y cyflawnwyd Strategaeth Pum Mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ddiwedd ei phum mlynedd yn unol â'r gofynion statudol o dan Safonau'r Gymraeg. Casglodd yr adolygiad adborth ansoddol hefyd i lywio cynnydd yr ail strategaeth ar gyfer 2022-2027.

Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Mawrth 2022, ac roedd yn seiliedig ar ymchwil pen desg, adolygiad o ddogfennaeth fewnol ynghylch strategaeth y Cyngor, cyfweliad â swyddogion allweddol a chiparolwg o randdeiliaid mewnol ac allanol allweddol. Roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys ystyried y Proffil Iaith a luniwyd gan Fenter Iaith Caerffili yn 2021, dogfennau canllaw Comisiynydd y Gymraeg; strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ynghyd â chanllawiau CSCA y Llywodraeth a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar y strategaeth yn ei chyd-destun statudol a pholisi; i ba raddau y cyflawnwyd amcanion safonau 145 a 146; ac yn rhoi sylwadau i'w hystyried gan y Cyngor gyda'i strategaeth pum mlynedd nesaf.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Crynodeb | 4 |
| 3. | Cyd-destun | 6 |
| 4. | Targedau a mesurau perfformiad | 12 |
| 5. | Cyflawni'r Strategaeth - adborth gan bartneriaid<br>• Gweledigaeth<br>• Targedau<br>• Aliniad strategol<br>• Gweithredu<br>• Cryfderau/Gwendidau<br>• Cyfleoedd/Heriau | 20 |
| 6. | Casgliadau | 28 |
| 7. | Atodiad 1 – Cyflawniadau | |
| 8. | Atodiad 2 – Proffil Iaith Menter Caerffili | |

## 2. Crynodeb

Nod yr adolygiad hwn yw asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg rhif 145 a 146.

Mae cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn ofyniad statudol penodol, ond mae'r Strategaeth ei hun yn benllanw ystod eang o weithgarwch strategol gan y Cyngor a'i bartneriaid gan ddarparu ffocws ar gyfer y gweithgareddau hynny.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod ei pherthnasedd yng nghyd-destun amcanion strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, a'i rôl o fewn cyd-destun polisi ehangach gydag addysg yn flaenllaw.

Hyd nes y bydd ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gael, yn ôl y dystiolaeth a welwyd yn ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth mae tuedd galonogol i'r cyfeiriad cywir i'w gweld, ac ymddengys fod Caerffili wedi llwyddo i gynnal canran gyson o siaradwyr Cymraeg wrth i'r boblogaeth dyfu.

Daw'r adolygiad hwn i'r casgliad bod y Cyngor wedi bodloni ei ofynion o dan safonau 145 a 146 drwy osod targed o ran canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, ynghyd ag amlinellu yn y strategaeth sut y mae'n anelu at gyflawni'r targed hwnnw ar ffurf cynllun gweithredu a thargedau ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid. Gyda Covid-19, mae cyflawni'r targedau a bennwyd yn wreiddiol wedi bod yn anodd mewn rhai meysydd darpariaeth, ond mae swyddogion wedi pwysleisio bod y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y strategaeth nesaf. Mae'r Cyngor yn adrodd ar y gweithgareddau a'u cyflawniad yn atodiad 1.

Mae'r adolygiad hwn yn ymateb i'r gofyniad yn safon 146 i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth ac wedi bodloni'r targed a osodwyd, ac yn ogystal, mae'r adroddiad hwn a'r arolwg a gynhaliwyd yn darparu adborth defnyddiol ar gyfer cyflawni strategaeth 5 mlynedd ddiwygiedig ac uchelgeisiol i'w chyhoeddi maes o law. Gan ein bod yn aros am ganlyniadau Cyfrifiad 2021, dylid nodi nad oes data cyfredol, cywir ar nifer ac oedrannau siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ar gael ar adeg llunio'r adroddiad hwn i fodloni gofynion llawn safon 146 i'r graddau y byddai'r Cyngor yn dymuno.

Mae adborth gan bartneriaid a rhanddeiliaid yn amlygu nifer o awgrymiadau ymarferol ac yn tynnu sylw at gyfleoedd newydd i'r Cyngor gryfhau'r gwaith o gyflawni'r strategaeth nesaf. Felly, mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn ceisio adlewyrchu'r canfyddiadau ymarferol hyn ar dudalen 28.

## 3. Cyd-destun

Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ofyniad statudol penodol sy'n deillio o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, ond mae hefyd yn bodoli mewn cyd-destun polisi a deddfwriaeth ehangach. Mae'r Strategaeth yn cydnabod ei pherthynas ag amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith, a'i rôl ochr yn ochr â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ogystal ag amcanion ehangach meysydd llesiant a chydraddoldeb. Mae'r cyd-destun strategol yn parhau i esblygu ac yn dod ag ystyriaethau newydd ar gyfer strategaeth 2022-27.

*Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*

Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg drwy reoliadau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015).

Y safonau sy'n cyfeirio'n benodol at y Strategaeth 5 mlynedd yw safonau 145 a 146 ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:

- lunio, a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal;
- cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd;
- cynnwys datganiad sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;
- adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar y wefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni);
- ar ôl 5 mlynedd, asesu i ba raddau mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi;
- cyhoeddi'r asesiad ar y wefan, gan ddangos nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
- nodi yn yr asesiad, estr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gan y Cyngor yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ddogfen gyngor yn 2021 ar asesu'r modd y caiff y strategaethau 5 mlynedd eu cyflawni sy'n cynnig gwybodaeth am fethodolegau a ffynonellau data ac awgrymiadau ar y dulliau gorau o fonitro cynnydd.

### *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*

Mae Cymraeg 2050 yn nodi nod hirdymor y Llywodraeth tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n seiliedig ar dair thema strategol:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – Seilwaith a chyd-destun

Dyma dargedau Cymraeg 2050:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Felly, mae strategaeth Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gyfraniad hanfodol i'r ddau darged cenedlaethol.

### *Diweddariad Cymraeg 2050 (Gorffennaf 2021)*

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth Raglen Waith Cymraeg 2050 2021-2026, yn amlinellu'r trywydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Dyma rai enghreifftiau sy'n cyfeirio at feysydd sy'n berthnasol i'r strategaeth hybu'r Gymraeg:

- adolygu cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2021
- pwysigrwydd addysg a'r gweithlu addysg

- adeiladu ar y sgiliau a gaffaelwyd o fewn addysg statudol i ddarparu mynediad am ddim i bobl ifanc 16-25 oed i gyrsiau Cymraeg i oedolion a sicrhau bod gan rieni fynediad at ddysgu'r iaith
- cefnogi grwpiau cymunedol i ehangu gweithgareddau yn dilyn y pandemig gyda phwyslais ar ddatblygu a grymuso cymunedau
- y fenter 'Cymraeg – mae'n perthyn i ni gyd' a phwysigrwydd y naratif hwnnw
- pwysigrwydd prif ffrydio'r Gymraeg ar draws yr agenda cydraddoldeb

***Ymateb y Llywodraeth i Effaith Covid-19 ar y Gymraeg***

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i effaith Covid-19 ar y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2021, ac roedd nifer o argymhellion yn cynnwys rhai yn ymwneud â strategaethau hyrwyddo awdurdodau lleol:

*"Dylai'r Awdurdodau Lleol (ALl) roi llais cryf i fudiadau cymunedol Cymraeg wrth gynllunio a gweithredu eu strategaethau hybu iaith. Dylid plethu at ei gilydd Strategaethau Hybu, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Fforymau Sirol y Mentrau Iaith gyda'r mudiadau cymunedol Cymraeg."*

Ymhlith yr argymhellion roedd:

- *"sicrhau llais cryf i'r grwpiau cymunedol o fewn y Strategaethau Hybu, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Fforymau Sirol y Mentrau Iaith*
- *sicrhau fod y fforymau iaith yn cwrdd yn rheolaidd ac yn datblygu rhaglenni gwaith ar y cyd â phartneriaid eraill a'r gymuned ac yn cefnogi Strategaethau Hybu a'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg*
- *byddwn ni'n cefnogi gwaith awdurdodau lleol i ddatblygu a gwireddu eu Strategaethau Hybu drwy ddarparu data a thystiolaeth iddyn nhw. Bydd hyn hefyd o ddefnydd mawr i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg*
- *cydweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau bod gwaith ar weithredu Strategaethau Hybu sirol yn adlewyrchu'r argymhelliad hwn*

- *pwysleisio bod angen i'r awdurdodau lleol sicrhau eglurder rôl ar gyfer pob sefydliad sydd â rhan yng ngweithredu'r strategaeth, a bod yr holl sefydliadau hynny'n cael gweld cynlluniau arfaethedig mewn da bryd er mwyn sicrhau mewnbwn strategol ac arbenigol"*

Felly, bydd yn bwysig ystyried y cyd-destun strategol cenedlaethol hwn wrth gyflawni'r strategaeth nesaf ar gyfer 2022-27 ynghyd ag unrhyw gyfleoedd a allai godi.

***Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032***

Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i rym ym mis Rhagfyr 2020 a newidiwyd y cylch cynllunio strategol (10 mlynedd) o 1 Medi 2021 i 1 Medi 2022. Cyhoeddwyd canllawiau gan y Llywodraeth yn 2021 i nodi ei gweledigaeth a'i thrywydd strategol. Darparwyd data taflwybr i bob awdurdod lleol ym mis Awst 2021.

Mae'r Cyngor wedi drafftio ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y system addysg a'r CSCA yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau twf yr iaith yn y fwrdeistref gan amlinellu ei thargedau:

*" Ein targed 10 mlynedd, dros oes y cynllun hwn, yw cynyddu'r lleoedd ym mlwyddyn 1 rhwng 26% (520) a 30% (600) o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030/31. Mae dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru, sy'n amlinellu'r fethodoleg wrth gyfrifo'r targed, yn dangos bod ein canran yn 2019/20 yn 17.9% ".*

Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng nodau'r CSCA newydd a'r strategaeth hybu newydd a chyda gwell aliniad strategol, bydd yn hanfodol bod y strategaeth newydd yn ategu ac yn gyrru'r CSCA yn ei flaen, yn enwedig o ran nodau Canlyniadau 1 a 5.

## *Llesiant – Y Gaerffili a Garem*

Un o'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw 'Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod cysylltiad agos iawn rhwng yr iaith a'r holl nodau llesiant (yr economi, iechyd a gofal ac ati) sy'n pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau a fframweithiau ehangach.

Mae hefyd yn berthnasol ei bod yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus archwilio'r holl ddata sydd ar gael i gynhyrchu asesiadau o anghenion y boblogaeth er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau. Rhaid i'r asesiadau hyn nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddarparu gwasanaethau y dylid eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 ar gyfer y cylch nesaf o asesiadau (i'w drafftio erbyn mis Ebrill 2022) yn nodi: *"Nododd adborth ... fod angen proffilio'r angen am ofal a chymorth a ddarperir yn Gymraeg yn well, a chynnal asesiad mwy cadarn o ystod a lefel y gwasanaethau y bydd angen i BPRhau eu darparu er mwyn diwallu'r angen hwnnw. Mae hyn yn cynnwys nodi bylchau yn y ddarpariaeth."*

Y gobaith yw y bydd yr asesiadau newydd yn rhoi darlun cliriach a mwy cynhwysfawr o anghenion siaradwyr Cymraeg fel ei bod yn bosibl cynllunio cynnydd yn y ddarpariaeth. Bydd hyn yn ei dro yn darparu cyd-destun cyfoethocach ar gyfer y Strategaeth Pum Mlynedd gyda chysylltiadau cliriach â gweithgareddau llesiant.

## *Cydraddoldeb*

Bwriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw dangos ymrwymiad y Cyngor i fodloni Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'n tynnu sylw at gysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a materion Hawliau Dynol a sut mae'n cefnogi 4 o 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.  Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer pob grŵp gwarchodedig.

Amcan 5 Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor yw 'Sicrhau y gall y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gael mynediad i wasanaethau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol' ac fe gaiff hyn ei fonitro'n flynyddol.

## 4. Targedau a mesurau perfformiad

Fel y nodwyd uchod, rhaid i strategaeth pob cyngor sir (safon 145) gynnwys:

- targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eu hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a
- datganiad sy'n esbonio sut y maent yn bwriadu cyrraedd y targed.

Rhaid i asesiad o'r strategaeth (safon 146) gynnwys:

- gwybodaeth am nifer ac oedrannau siaradwyr Cymraeg yn yr ardal
- rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd yn ystod y pum mlynedd i hybu'r defnyddio'r Gymraeg

Ynghlwm â safon 146 mae'r angen i sicrhau bod trefniadau monitro a mesurau perfformiad ar waith i asesu'r modd y caiff y strategaeth ei chyflawni.

Cynigiodd strategaeth 2017-2022 y targed canlynol:

> **"isafswm o 3% fel targed cynnydd bob blwyddyn rhwng 2017 a 2022. Felly mae targed hwn yn golygu erbyn Cyfrifiad 2021, bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o leiaf 14.2% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg*.**
> (* - nid oes unrhyw darged poblogaeth gan fydd y ffigyrau poblogaeth yn newid oherwydd mewnfudo ac allfudo)"

Esboniodd y strategaeth fod y targed hwn yn seiliedig ar alluoedd iaith Gymraeg disgwyliedig y boblogaeth erbyn 2022 a nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg.

Ar wahân i ddata'r Cyfrifiad, prif ffynonellau data'r Cyngor ei hun o ran nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith ei boblogaeth yw ei ddata **addysg** a'r **gweithlu** sy'n caniatáu i'r Cyngor nodi unrhyw dueddiadau a chynnydd tuag at y targed bob blwyddyn.

## *Y Cyfrifiad*

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd **11.2%** o boblogaeth bwrdeistref sirol Caerffili yn siaradwyr Cymraeg rhugl gydag **16.1%** o boblogaeth y fwrdeistref yn meddu ar rywfaint o wybodaeth am y Gymraeg h.y. yn deall, siarad, darllen neu ysgrifennu neu gyfuniad o'r rhain. Yn 2011, y grŵp oedran â'r ganran uchaf yn gallu siarad Cymraeg oedd **10-14 (38.8%).** Bydd yn bwysig olrhain y garfan hon yng Nghyfrifiad 2021.

| **2011** | **Yn gallu siarad Cymraeg** ***Nifer*** | **Yn gallu siarad Cymraeg** ***% y boblogaeth*** |
|---|---|---|
| **Caerffili** | **19,251** | ***11.2*** |
| Cymru | 562,016 | *19.0* |

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 ar 21/03/2021 a disgwylir y canlyniadau cyntaf o fewn 12 mis a'r gweddill o fewn 24 mis. Felly, nid oes data penodol a chywir cyfredol ar nifer ac oedrannau siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ar gael ar adeg llunio'r adroddiad hwn i fodloni gofynion safon 146 i'r graddau y byddai'r Cyngor yn dymuno, gan fod y data hwn dros 10 mlwydd oed.

## *Pa dystiolaeth arall sydd ar gael?*

Mae dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg ar asesu cyflawniad y strategaethau 5 mlynedd yn ein cyfeirio at ddulliau eraill o olrhain patrymau neu dueddiadau a allai roi cipolwg defnyddiol ar gyflawniad y strategaeth.

## *Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal arolwg chwarterol ac yn darparu data ar nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ar lefel cyngor sir i ddangos tueddiadau o ran y Gymraeg rhwng pob cyfrifiad. Fodd bynnag, mae dogfen ganllaw'r Comisiynydd yn nodi 'ni ddylai canlyniadau'r Arolwg Blynyddol gael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg'.

Serch hynny, y fantais gyda hyn yw ei fod yn cynhyrchu canlyniadau'n amlach ac fe all fod yn ddangosydd defnyddiol. Mae'n darparu canlyniadau yn ôl grwpiau oedran bras i roi syniad cyffredinol i ni o gynnydd. O edrych ar y ffigurau yn ystod cyfnod y strategaeth pum mlynedd gallwn weld tuedd gadarnhaol yn dod i'r amlwg ar gyfer y fwrdeistref.

Ar lefel Cymru gyfan mae'r duedd fel a ganlyn:



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a Chyfrifiad y Boblogaeth

Ac ar lefel bwrdeistref sirol Caerffili:

| Blwyddyn | Yn gallu siarad Cymraeg | Y cyfan | Canran y boblogaeth |
|---|---|---|---|
| 30 Medi 2017 | 40,000 | 173,100 | 23.1 |
| 30 Medi 2019 | 39,000 | 174,000 | 22.4 |
| 30 Medi 2021* | 44,100 | 175,900 | 25.1 |

(Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Ionawr 2022)

*Mae gwefan y Llywodraeth yn nodi y dylid trin y cynnydd hwn yn ofalus oherwydd newid yn y ffordd y cynhaliwyd yr arolwg o ganol mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig.

### *Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Dangosydd arall yw Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n casglu gwybodaeth am allu oedolion 16 oed a throsodd i siarad Cymraeg yn unol â dangosyddion cenedlaethol 36 a 37 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Amlinellir dangosydd cenedlaethol 37 isod i roi syniad o sut mae pobl yn y fwrdeistref yn uniaethu â'r iaith.

| **Blwyddyn** | | **% yr oedolion sy'n siarad Cymraeg** | **% yr oedolion sydd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg** |
|---|---|---|---|
| 2016-17 | Cymru | 20% | 9% |
| | **Caerffili** | **10%** | **10%** |
| 2017-18 | Cymru | 19% | 12% |
| | **Caerffili** | **9%** | **14%** |
| 2018-19 | Cymru | 18% | 15% |
| | **Caerffili** | **9%** | **20%** |

*(Ffynhonnell: statscymru.llyw.cymru)*

Hyd nes y bydd ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gael, yn ôl y dystiolaeth a ddangosir yn ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru mae tuedd galonogol gyda'r fwrdeistref wedi cynnal ei chanran o siaradwyr Cymraeg yn fras wrth i'w phoblogaeth dyfu ynghyd â'r ffaith bod mwy a mwy o bobl yn cofnodi bod ganddynt rywfaint o allu i siarad Cymraeg.

### *Arolwg Defnydd Iaith*

Nid yw'r arolygon defnydd iaith yn casglu gwybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg, maent yn casglu gwybodaeth fanylach am ruglder a defnydd. Oherwydd Covid-19 bu'n rhaid rhoi'r gorau i Arolwg Defnydd Iaith 2019-21 yn gynnar ond bydd y data a gasglwyd yn ystod naw mis cyntaf yr arolwg, pan gaiff ei ryddhau, yn rhoi cipolwg ar sut mae pobl yn defnyddio'r Gymraeg ar lefel genedlaethol (ac o bosibl rhanbarthol).

Dangosodd yr arolwg defnydd iaith blaenorol, yn 2013-15, y bu cynnydd sylweddol yn nifer y rhai a ddywedodd eu bod yn rhugl. Fodd bynnag, gostyngodd y rhai a nododd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 46% yn 2004-06 i 38% yn 2013-15. Mae hwn hefyd yn ddangosydd allweddol i'w olrhain mewn arolygon yn y dyfodol gan y dylai'r strategaeth hybu (ynghyd â safonau'r Gymraeg) fod yn darparu cyfleoedd i gynyddu'r nifer hwn.

***Trosglwyddo iaith***

Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011, yng Nghymru, roedd cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg i blant ar aelwydydd lle mae dau riant yn gallu siarad Cymraeg yn 82%. Ym mwrdeistref Caerffili roedd y ganran yn is, sef 73%.

Mae'r rhan fwyaf o blant 3-4 oed yn y fwrdeistref yn byw ar aelwyd lle nad oes oedolyn yn siarad Cymraeg. Felly mae cryn ddibyniaeth ar ddarpariaeth feithrin ac addysg i drosglwyddo'r iaith i blant a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref.

Dylai'r Cyngor roi sylw manwl i'r ffigur cyfatebol o Gyfrifiad 2021 i sicrhau ei fod yn gweithredu ymyriadau priodol ochr yn ochr â gwaith ei bartneriaid iaith Gymraeg.

***Addysg***

Mae'r ffigurau'n dangos cynnydd yng nghanran y disgyblion mewn addysg Gymraeg:

| **2001** | **2011** | **2019/20** |
|---|---|---|
| 11% | 17% | 17.9%<br>(CYBLD; er mai 18.9% erbyn 2017 oedd y targed a bennwyd gan CSCA blaenorol) |

Ynghyd â'i darged i gynyddu'r nifer hwn ymhellach fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor wedi amlinellu yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft ar gyfer 2022-32:

*Deellir yn glir bod angen i ni ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i blant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar er mwyn cynyddu nifer y plant sy'n cyrchu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd cynyddu nifer y lleoedd gofal plant ac*

*addysg feithrin gyda dilyniant i ganiatáu pontio 100% trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd i gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Mae galw mawr ar draws pob rôl yn y gweithlu am siaradwyr Cymraeg, felly mae'n hanfodol cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr sy'n oedolion.*

Mae hyn yn dangos y berthynas glir rhwng y ddwy strategaeth. Bydd y gwaith a wnaed gyda thargedau strategaeth 2017-22, yn enwedig gan bartneriaid y Gymraeg, yn darparu sail gadarn ar gyfer ymdrechion wedi'u targedu'n well dros y pum mlynedd nesaf.

***Y Gweithlu***

Mae'n ofynnol i gynghorau sir asesu sgiliau Cymraeg y gweithlu a chyhoeddi'r wybodaeth yn flynyddol. Er bod cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn dod o dan ofynion safonau eraill, mae'n deg dweud bod yr agwedd hon a'r targedau cysylltiedig yn y strategaeth hybu yn cefnogi'r nodau craidd o gynyddu nifer y siaradwyr a'r defnydd o'r Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd ymhlith y gweithlu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ffigurau dros y cyfnod:

| **Staff y Cyngor – Sgiliau iaith Gymraeg** (nid yw'r ffigurau'n cynnwys staff sy'n gweithio mewn ysgolion) | **Canran** |
|---|---|
| **2016-2017** | 4.97% |
| **2017-2018** | 4.63% |
| **2018-2019** | 18.53% |
| **2019-2020** | 21.37% |
| **2020-2021** | 21.99% |

Mae nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi cynyddu rhwng 2017-18 a 2018-19. Mae'r cynnydd hwn yn gysylltiedig â gwell cofnodi a chodi ymwybyddiaeth ac arolygon staff, a'r strategaeth hybu gyntaf (a oedd yn cynnwys targed i gynyddu nifer y staff â sgiliau iaith Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu).

***Gweithgareddau***

Mae tabl sy'n adrodd ar y rhestr lawn o weithgareddau ynghyd â'r cofnod o'u gweithredu wedi'i atodi fel tystiolaeth at ddibenion adrodd ar safon 146 (Atodiad 1). Roedd y gweithgareddau'n destun craffu rheolaidd yn ystod prosesau craffu'r Fforwm a'r Cyngor, a chafodd adroddiad arnynt ei gynnwys hefyd fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Comisiynydd hyd at 2019 cyn y pandemig.

Yn naturiol, mae'r cynnydd yn ystod 2020-22 wedi bod yn gyfyngedig mewn nifer o feysydd oherwydd effaith Covid-19, wrth i bobl ganolbwyntio ar addasu i fodelau newydd o ddarparu gwasanaethau. Bydd y gwersi a ddysgwyd wrth i ddarpariaeth a gwaith mwy hyblyg a chyfunol ddatblygu dros y cyfnod hwn yn werthfawr iawn wrth ystyried targedau yn y dyfodol o ran cyflawni a mesur effaith.

## *Cydymffurfio*

Ynghyd ag edrych ar effaith y strategaeth gyda'i gweledigaeth a'i nodau pellgyrhaeddol ar hybu a defnyddio'r iaith o fewn y fwrdeistref, bydd cydymffurfio â'r ddwy safon (145 a 146) yn ffocws penodol i Gomisiynydd y Gymraeg fel y corff rheoleiddio.

Mae CBSC wedi cynhyrchu a chyhoeddi'r strategaeth sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach. Mae hefyd yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd gan gynnwys nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw. Mae'r elfennau hyn mewn ymateb uniongyrchol i ofynion Safon 145.

Mae bodloni Safon 146 wedi golygu adolygu'r strategaeth ar ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd ac asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed, gan amlinellu nifer y siaradwyr Cymraeg a rhestr o weithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd i hyrwyddo'r iaith dros y cyfnod o bum mlynedd. Rydym yn aros am ganlyniadau Cyfrifiad 2021 i ddadansoddi'r nifer bresennol o siaradwyr Cymraeg ochr yn ochr â'r gweithgareddau a drefnir ac a ariannwyd.

Mae hyn felly wedi golygu cadw cofnod o gynnydd o ran cyflawni'r targedau a nodir yn y cynllun gweithredu ynghyd â thystiolaeth sy'n dangos cynnydd tuag at y targed cyffredinol o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r dystiolaeth hon wedi gofyn am amrywiaeth o wybodaeth feintiol ac ansoddol a gasglwyd gan y Cyngor a chan bartneriaid allanol (gweler atodiad 1).

## *5. Cyflawni Strategaeth 2017-2022 – adborth gan bartneriaid*

Ar gyfer yr adolygiad hwn, yn ogystal â chyfweliad â swyddogion allweddol, cynhaliwyd ciparolwg yn ystod mis Mawrth 2022 i gasglu barn rhanddeiliaid ar Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer 2017-22. Roedd hyn wedi'i gyfyngu i bartneriaid allanol allweddol ymhlith aelodau Fforwm yr Iaith Gymraeg a hefyd partneriaid allweddol o fewn y Cyngor mewn gwahanol adrannau sy'n berthnasol i weithredu'r strategaeth a arweiniodd at 11 o ymatebwyr.

Mae'r ymatebion a roddwyd wedi rhoi cipolwg defnyddiol ar gryfderau'r strategaeth a chyfleoedd posibl i gryfhau a datblygu'r strategaeth newydd dros y pum mlynedd nesaf o safbwynt partneriaid.

Roedd yr arolwg yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Gweledigaeth
- Targedau
- Aliniad strategol
- Gweithredu
- Cryfderau/Gwendidau
- Cyfleoedd/Heriau

***Gweledigaeth***

Gofynnwyd i bartneriaid pa mor glir oedd gweledigaeth a nodau'r strategaeth iddynt. Nododd pob un o bartneriaid y Fforwm Iaith a ymatebodd ei bod 'yn glir iawn, byddech yn clywed yr un disgrifiad o'r weledigaeth gan bob partner'. Mae hyn yn adlewyrchu'r rôl ganolog y mae'r partneriaid allweddol hyn wedi'i chwarae yn y strategaeth o'r cychwyn cyntaf. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith bod yr un ymatebwyr wedi nodi eu bod yn cytuno bod CBSC yn rhoi digon o gyfle i bartneriaid roi eu mewnbwn i'r strategaeth a bod CBSC yn parhau i gynnwys partneriaid wrth weithredu'r strategaeth bresennol a pharatoi ar gyfer y strategaeth newydd.

Yn fewnol, roedd y safbwyntiau'n fwy cymysg gyda'r mwyafrif yn nodi bod y weledigaeth a'r nodau 'yn llawer cliriach nawr nag yn 2017'.

Mae'r canfyddiadau'n atgyfnerthu pwysigrwydd cefnogaeth ac ymgysylltiad parhaus i gyfleu'r weledigaeth mewn cyd-destunau sy'n berthnasol i wahanol wasanaethau'r Cyngor ac ymhlith partneriaid ehangach yn gyffredinol.

***Targedau***

Gofynnodd yr arolwg a oedd y targedau yn y strategaeth yn realistig ac yn gyraeddadwy, gyda'r holl bartneriaid allanol yn cytuno â hyn ynghyd â'r rhan fwyaf o bartneriaid mewnol.

Fodd bynnag, nodwyd bod rhai targedau yn anodd eu mesur, sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau blynyddol ar gynnydd targedau o ran effaith y gweithgareddau ar ddefnydd iaith. Fel y nodwyd yn nogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg 'Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5-mlynedd':

*"Bydd llwyddiant y strategaethau hybu yn dibynnu llawer ar agweddau, arferion ieithyddol, barn a sefyllfaoedd cymdeithasol*
*unigolion a grwpiau yn y cynulleidfaoedd targed. Mae'r rhain yn ffactorau anodd eu mesur â rhifau ac ystadegau.*

*Yn y cyswllt hwn, gan fod y sefydliad cyhoeddus yn dymuno dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol y cyhoedd a'r sefydliadau yn ei ardal leol, gallai fod yn fuddiol i ategu canfyddiadau'r dystiolaeth feintiol drwy gynnal ymchwil ansoddol hefyd." (tudalen 15)*

Dyma, felly, yw'r her i'r strategaeth newydd, sef bod angen i'r targedau fod yn fesuradwy, gyda thystiolaeth feintiol ac ansoddol i ddangos effaith y strategaeth ar nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd, y gymuned, addysg, gwasanaethau lleol a'r gweithle.

***Aliniad strategol***

Datblygwyd y blaenoriaethau strategol mewn ymgynghoriad â phartneriaid mewnol ac allanol, gan adlewyrchu anghenion penodol y boblogaeth ac adleisio blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith.

Gofynnwyd i bartneriaid mewnol sut yr oedd y strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol eu meysydd gwasanaeth. Dywedodd pawb ond un fod nod y strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau eu hadrannau gydag un yn nodi bod nod y strategaeth yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar y cyfan ond y gallai fod ychydig o wrthdaro â rhai. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw bryderon.

Roedd barn y partneriaid allanol o ran yr aliniad strategol yn rhanedig gyda hanner yn nodi bod blaenoriaethau'r strategaeth yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau fel corff, gyda'r hanner arall yn nodi bod aliniad cyffredinol ond gyda rhai blaenoriaethau croes ar adegau. Unwaith eto, ni nodwyd unrhyw bryderon.

Ymhlith y sylwadau perthnasol a wnaed ar gyfer y strategaeth yn y dyfodol, roedd yr angen i sicrhau bod cysylltiadau cliriach ag amcanion gwasanaeth CBSC a'r prif fframwaith perfformiad.

***Gweithredu***

Gofynnodd yr arolwg i gyfranogwyr roi sylwadau ar weithrediad y strategaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o fewn y Cyngor yn ogystal â phartneriaid allanol yn cytuno eu bod wedi gweld newid cadarnhaol mewn agwedd/ymddygiad o ran hybu'r Gymraeg yng ngwasanaethau CBSC.

*Mae'r Strategaeth wedi annog rhai adrannau amrywiol o fewn CBS Caerffili i ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg neu ymchwilio i ddulliau newydd o ddarparu yn Gymraeg ar y cyd â phartneriaid eraill. Mae hwn wedi bod yn newid bwysig sy'n wahanol i'r amharodrwydd blaenorol i dderbyn bod dyletswydd a disgwyliadau ar y Cyngor i ddarparu'n Gymraeg neu'n ddwyieithog.* (partner allanol)

Dywedodd y mwyafrif hefyd eu bod wedi gweld newid cadarnhaol mewn ymddygiad ymhlith preswylwyr a'u defnydd o'r iaith gyda mwy o ymgysylltu'n digwydd.

Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ansicrwydd ynghylch a oedd holl feysydd gwasanaeth CBSC yn deall eu rôl wrth weithredu'r strategaeth yn llwyddiannus, gyda rhai ymatebwyr yn nodi elfen o bryder ynghylch a oes gan y Cyngor yr adnoddau a'r strwythur cymorth priodol i helpu i weithredu'r strategaeth.

Ar nodyn cadarnhaol, nododd bron pob un o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod mwy o hyd y gall eu maes gwasanaeth ei wneud i archwilio cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid er mwyn sicrhau llwyddiant y strategaeth, sydd, o'i hannog ymhellach, yn argoeli'n dda ar gyfer y strategaeth nesaf.

*Ceir enghreifftiau o arfer dda lle mae cyfleoedd a phrosiectau cydweithio rhwng adrannau amrywiol o CBS Caerffili a phartneriaid allanol megis Menter Caerffili wedi datblygu'n llwyddiannus e.e. Datblygu'r Celfyddydau, Gwasanaeth Ieuenctid. Serch hynny, mae yna fwy o potensial i'r math hwn o waith ddatblygu sy'n cynnig datrysiadau o ran heriau darpariaeth cyfrwng Cymraeg*." (partner allanol)

***Cryfderau/Gwendidau***

Nodwyd llawer o gryfderau gyda'r strategaeth, sy'n ddefnyddiol wrth symud ymlaen gyda'r strategaeth newydd ar gyfer 2022-27. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth glir wedi'i hamlinellu'n dda o ran gweledigaeth, cynllun ac iaith strategol gydag ymrwymiadau clir.
- Mae'n cynnwys trawstoriad da o bartneriaid allweddol.
- Mae'n hygyrch i'r holl staff gyda thargedau clir ac enghreifftiau manwl o gymhwyso ymarferol.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth dysgu Cymraeg ar gyfer staff CBSC.
- Gweithio'n dda mewn partneriaeth o fewn y Cyngor ac yn enwedig gyda phartneriaid allanol yn y fforwm iaith.
- Mae'r strategaeth yn dangos bod CBSC yn deall ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y gwaith a wneir gan bartneriaid iaith Gymraeg yn y fwrdeistref.
- Mae'r strategaeth wedi annog cydweithio a thrafod rhwng partneriaid y Gymraeg.

I grynhoi, nododd un adran o fewn CBSC fod y strategaeth yn:

*"Uno'r hyn y mae angen i ni ei wneud fel adrannau unigol ac fel awdurdod i ddarparu adnoddau Cymraeg rhagorol i drigolion."*

O ran gwendidau, unwaith eto, mae'r sylwadau gan ymatebwyr yn rhoi ystyriaethau defnyddiol ar gyfer strategaeth 2022-27. Er enghraifft:

- Mae strategaeth 2017-22 yn ddibynnol iawn ar waith partneriaid allanol yn y fwrdeistref
- Diffyg ymrwymiad ymysg rhai adrannau a'r angen i'w cynnwys a denu eu cefnogaeth
- Yr angen am strwythur atebolrwydd cliriach a chysylltiadau agosach ag amcanion gwasanaeth a phrif fframwaith perfformiad

Mae partner allanol yn gwneud pwynt allweddol i'w ystyried yn y dyfodol, yn enwedig ar ôl i'r pandemig achosi i sefydliadau archwilio ffyrdd o weithio a chyfathrebu:

*“Nid yw’r Strategaeth wedi mynd i’r afael â’r elfen ddigidol a sicrhau lle i’r Gymraeg yn yr elfen honno o fewn CBS Caerffili.”*

***Cyfleoedd/Heriau***

Cynigiodd partneriaid nifer o awgrymiadau ar gyfer manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gyda'r strategaeth newydd ar gyfer 2022-2027:

- Parhau i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo'r strategaeth yn well ar draws pob maes
- Archwilio cyfleoedd sy'n deillio o'r cysylltiad cynyddol â'r CSCA, amcanion gofal plant ac ati
- Cydweithio â darparwyr addysg bellach a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weithredu *Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg.*
- Archwilio cyfleoedd i ddysgu Cymraeg gyda hyfforddiant staff a'r awydd cynyddol presennol i ddysgu Cymraeg
- Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg o ran archwilio'r ddarpariaeth o gyrsiau ar-lein sy'n bosibl i breswylwyr a staff CBSC
- Mabwysiadu dull ‘bitesize’ ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn y gweithle, gyda sgyrsiau Zoom anffurfiol, sesiynau galw heibio ac ati

- Archwilio cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ynghyd â datblygu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith drwy'r ddarpariaeth frecwast a'r gwasanaethau cinio
- Datblygu prosiectau penodol dros y pum mlynedd o dan y prif benawdau targed
- Datblygu partneriaethau a phrosiectau newydd ar draws amrywiaeth o sefydliadau gyda gwahanol adrannau CBSC
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer cysylltiadau cydweithredol cryfach rhwng partneriaid wrth weithredu'r strategaeth
- Datblygu sgiliau arwain dwyieithog ymysg pobl ifanc i'w helpu i ddatblygu i fod yn hyrwyddwyr y Gymraeg o fewn eu cymunedau

Nododd Menter Caerffili bwysigrwydd sicrhau mynediad gwell a lleol i weithgareddau Cymraeg i drigolion yn eu cymunedau a'u cymdogaethau.

*“Yn ystod cyfnod y Strategaeth rydym wedi gweld parhad yn yr ymddygiad positif ymhlith trigolion y Sir gyda mwy o bobl yn ymgysylltu â’r Fenter er mwyn cael mynediad at gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg. Un agwedd arwyddocaol yn y cyd-destun hwn yw’r galw am fwy o gyfleoedd o fewn cymunedau penodol a galw clir am gyfleoedd a gwasanaethau o fewn mwy o cymunedau ac o fewn lleoliadau sy’n agos i drigolion."*

Ochr yn ochr â'r cyfleoedd, roedd yr heriau a amlygwyd gan bartneriaid yn ymdrin â'r canlynol:

- Covid-19 a'i waddol
- Denu a recriwtio siaradwyr Cymraeg i rolau allweddol er mwyn cyflawni nodau'r strategaeth
- Yr angen i dynnu sylw at gysylltiadau a chyfleoedd i fwy o bartneriaid y Cyngor ymgysylltu a datblygu darpariaeth Gymraeg. Goresgyn amharodrwydd i newid er mwyn sicrhau darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg newydd
- Annog pobl i fod â hyder i ddefnyddio'r ddarpariaeth Gymraeg
- Sicrhau ymrwymiad partneriaid ehangach o fewn CBSC a thu hwnt i ymgysylltu â'r strategaeth
- Diffyg adnoddau digonol i ddatblygu'r Gymraeg (ee. darpariaeth cyfieithu)

## *Effaith COVID-19*

Er y gallai fod yn rhy gynnar i asesu effaith lawn y pandemig ar y Gymraeg, mae'n deg dweud, o ran cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, fod y pandemig yn sicr wedi cael effaith negyddol, fel y nodwyd yn adroddiad Llywodraeth Cymru ar Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg eu hiaith (Rhagfyr 2020).

Mae Lowri Jones, Prif Swyddog Menter Caerffili a Chadeirydd Mentrau Iaith Cymru wedi gwneud sylwadau ar yr angen i estyn allan i gymunedau yn dilyn y pandemig:

*“Rydym yn aml yn difreintio’n cymunedau tlotaf o gysylltiad gyda’n hiaith yn ogystal â’r diwylliant a’r dreftadaeth sydd ynghlwm â’r Gymraeg... Mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn rhan greiddiol o’r gefnogaeth sy’n cynorthwyo cymunedau i oresgyn heriau economaidd a datblygu dyheadau ac uchelgais ar gyfer y dyfodol*."
[Adroddiad o gynhadledd Academi Hywel Teifi, Troi Gofid yn Obaith: Cymraeg yn y "Normal Newydd", Mawrth 2021]

Roedd swyddogion a phartneriaid yn awyddus i bwysleisio'r ochr gadarnhaol wrth symud ymlaen gyda llawer o bartneriaid wedi llwyddo i addasu a newid ffyrdd o weithio'n gyflym iawn gyda hyblygrwydd a chreadigrwydd. Gorfodwyd pawb i addasu, arbrofi a dysgu, gyda rhai yn llwyddo i ymestyn eu hapêl yn genedlaethol gyda gweithgareddau ar-lein er eu bod yn colli allan gyda'r cyswllt wyneb yn wyneb yn lleol.

Yn fewnol, nododd swyddogion mai prin fu’r effaith negyddol a gafwyd ar waith yr Uned Gymraeg ei hun, ac eithrio am gyfnod pan gafodd eu rolau eu hadleoli i ddelio â'r argyfwng.

Fodd bynnag, nodwyd, gyda staff yn gweithio gartref yn ystod y pandemig, fod amlygrwydd iaith a phresenoldeb swyddogion sy'n siarad Cymraeg ar y safle yn golygu bod staff yn llawer llai agored i'r iaith a dwyieithrwydd yn eu gwaith bob dydd, yn ogystal â nodi'r effaith negyddol ar gynnydd o ran dysgu Cymraeg yn y gweithle.

# 6. Casgliadau

**Safonau 145 a 146**
Er mwyn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau dan sylw, mae'n amlwg bod y Cyngor wedi bodloni gofynion safon 145 yn llawn drwy osod targed o ran canran a nifer y siaradwyr yn yr ardal, ynghyd ag amlinellu yn y strategaeth sut y byddai'n anelu at gyflawni'r targed hwnnw ar ffurf cynllun gweithredu a thargedau.

Mae'r adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r gofyniad yn safon 146 o ran asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed a osodwyd, ac yn ei dro, mae'r adborth a gafwyd gan bartneriaid mewnol ac allanol yn darparu ystyriaethau defnyddiol ar gyfer cyflawni strategaeth bum mlynedd ddiwygiedig ac uchelgeisiol ar gyfer 2022-2027 i'w chyhoeddi maes o law.

**Effaith gyffredinol y strategaeth**
Fel y nodwyd uchod, nid yw data'r Cyfrifiad ar gael eto i fesur yn union raddau llwyddiant ymyraethau strategol y Cyngor o ran niferoedd ac oedrannau siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, ond mae arwyddion o ffynonellau dibynadwy eraill yn awgrymu cynnydd sefydlog a graddol.

Byddai'n anodd priodoli unrhyw gynnydd yn y niferoedd yn uniongyrchol i weithgareddau cymunedol y strategaeth, ond, fel y mae dogfen gyngor y Comisiynydd ar asesu cyflawniad strategaethau 5 mlynedd yn nodi, mae hefyd yn anodd priodoli cynnydd mewn defnydd bob dydd i weithgareddau penodol. Anogir y Cyngor felly i ystyried dogfen gyngor y Comisiynydd yng nghyd-destun ail darged Cymraeg 2050 o ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, drwy osod mesuriadau ansoddol a meintiol i olrhain effaith a llwyddiant gweithgareddau penodol. Mae'r adborth o'r arolwg yn adlewyrchu hyn hefyd.

**Ystyriaethau i'r dyfodol**
Gyda'r oll y mae'r pum mlynedd diwethaf wedi'i gyflwyno i drigolion CBSC, mae'n bwysig dathlu cryfderau'r Strategaeth Hybu a dylid parhau i ystyried y gwersi a ddysgwyd, a rhannu arferion da. Mae nifer o gyfleoedd yn codi i'r Cyngor drwy weithredu strategaeth hybu a CSCA newydd ynghyd â datblygiadau strategol eraill ar lefel genedlaethol a chyda phartneriaid.

Mae Adran 3 yn nodi'r sefyllfa ddiweddar ar lefel polisi cenedlaethol mewn perthynas â'r Gymraeg a dylid ystyried unrhyw drywydd newydd ar y lefel hon wrth i'r ail strategaeth bum mlynedd fynd rhagddi gan ystyried unrhyw gyfleoedd newydd sy'n codi.

Mae Adran 6 yn nodi sylwadau ac awgrymiadau gwerthfawr a geir yn yr adborth a gafwyd o'r cyfweliad gyda swyddogion allweddol a'r arolwg o bartneriaid, a dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhain ar gyfer cyflawni'r strategaeth pum mlynedd nesaf yn ystod 2022-2027. Amlinellir ystyriaethau pellach isod:

1. **Data newydd** Dylid adolygu'r Strategaeth Hybu newydd yn dilyn cyhoeddi data'r Cyfrifiad ar siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol gan graffu'n feirniadol ar dargedau, a'u haddasu yn ôl yr angen.

2. **Mesur effaith** Er mwyn gallu mesur cynnydd y strategaeth yn effeithiol erbyn 2027, dylid ystyried cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar asesu'r strategaeth ochr yn ochr â'r enghreifftiau ymarferol o gasglu tystiolaeth a roddir gan bartneriaid. Dylai trafodaethau gyda phartneriaid arwain at benderfyniad ynglŷn â'r dystiolaeth a allai ddangos effaith ymyriadau, o ran newid mewn ymddygiad / agwedd / defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu mewn termau meintiol.

3. **Partneriaethau Ehangach** Adeiladu ar gefnogaeth partneriaid y Fforwm gyda'u dulliau cyfathrebu a'u cysylltiadau â phartneriaid/rhanddeiliaid a siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Dylid ystyried y ffordd orau o gynnwys:
   (i) swyddogion o'r Cyngor i rannu gwybodaeth ac arferion da a sicrhau dealltwriaeth gyffredin o nodau;
   (ii) sylfaen ehangach o bartneriaid ee. o ofal iechyd, busnes a'r economi i chwilio am gyfleoedd ar gyfer cysylltiadau cydweithredol cryfach a datblygu partneriaethau a phrosiectau newydd.